Enw

DARLLENWCH
Mathew 2: 1-8

Mae'r stori hon yn sôn am:
Y Doethion yn ceisio dod o hyd i Iesu

Stori 2 Herod a'r Doethion

Roedd seren newydd wedi ymddangos yn yr awyr. Gwyddai Doethion (Seryddion) yn y dwyrain fod hyn yn arwydd y byddai Brenin newydd yn cael ei eni. Dyma nhw'n teithio i Jerwsalem i weld y Baban, er mwyn Ei addoli. Doedd y newyddion hyn ddim yn plesio Herod. Ef oedd y brenin a doedd wiw i neb arall gymryd ei le!



Beth fyddai'r Doethion yn ei wneud ar ôl dod o hyd i'r Plentyn?

Rhowch linell drwy'r ateb anghywir

Ei ladd Ei addoli

Doedd Herod ddim yn gwybod ble'r oedd y Plentyn, felly gofynnodd i rai o'i gynghorwyr a wydden nhw ble'r oedd y Baban i gael ei eni. Dyma oedd eu hateb:

Bethlehem.

Lliwiwch y geiriau a'r lluniau.



Galwodd Herod y Doethion ato a dywedodd:

> Ewch a chwiliwch yn fanwl am y Plentyn, a phan fyddwch wedi dod o hyd Iddo, rhowch wybod i mi er mwyn i minnau hefyd fynd i'w addoli.

Ond mewn gwirionedd doedd Herod ddim eisiau addoli Iesu.

Roedd e am Ei ladd!

Felly dechreuodd y Doethion ar eu taith i Fethlehem i chwilio am Iesu.